Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu | Dyddiad: | 2 Mawrth 2017 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 8 MAWRTH 2017** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, Y RHYL**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 7 - 8)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 9 - 22)

Derbyn -

(a) cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2016 (copi ynghlwm),

(b) cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Arbennig a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2016 (copi ynghlwm).

**5 HYFFORDDIANT YMWYBYDDIAETH CAMFANTEISIO'N RHYWIOL AR BLANT** (Tudalennau 23 - 34)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) ynghylch hyfforddiant ymwybyddiaeth camfanteisio'n rhywiol ar blant, gan gynnwys presenoldeb/diffyg presenoldeb gyrwyr a chynigion ar gyfer y dyfodol.

**6 DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU ARFAETHEDIG** (Tudalennau 35 - 88)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) sy'n cyflwyno drafft terfynol Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor i'w fabwysiadu.

**7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL 2017 Y PWYLLGOR TRWYDDEDU** (Tudalennau 89 - 92)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor i'w chymeradwyo.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitemau busnes canlynol yn cael eu trafod oherwydd ei fod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**8 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 510104** (Tudalennau 93 - 106)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat o ran Gyrrwr Rhif 510104.

**9 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 16/0944/TXJDR** (Tudalennau 107 - 118)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat o ran Gyrrwr Rhif 16/0944/TXJDR.

**10 CAIS AM GANIATÂD MASNACHU AR Y STRYD – YMGEISYDD RHIF 1** (Tudalennau 119 - 134)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais am fasnachu ar y stryd gan Ymgeisydd Rhif 1.

**11 CAIS AM GANIATÂD MASNACHU AR Y STRYD – YMGEISYDD RHIF 2** (Tudalennau 135 - 154)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais am fasnachu ar y stryd gan Ymgeisydd Rhif 2.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Cefyn Williams (Cadeirydd)

Huw Williams (Is-Gadeirydd)

Joan Butterfield
Bill Cowie
Meirick Davies
Stuart Davies
Hugh Irving

Barry Mellor
Merfyn Parry
Pete Prendergast
David Simmons

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned